Pecyn Adnoddau

# Peidiwch â Difa'r Ddaear!

# Don't Stamp Out the Earth!

Resource Pack

SCAN Schools & Communities Agenda 21 Network
LTCS Landfill Tax Credit Scheme
CARDIFF CAERDYDD
Legal & General
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

Peidiwch â Difa'r Ddaear!

# Newid amgylcheddol ar blât!

Caiff hyn oll ei gynnwys yn ein gwersi ni!

**Angen adnoddau?**
Mynnwch becyn adnoddau AM DDIM!

***Daearyddiaeth***
***A.B.Ch.***
***Dinasyddiaeth***
***Datblygu Cynaliadwy***
***Y Cwricwlwm Cymreig***
**Mathemateg**

**Manylion Cyswllt:**
**Swyddog Project SCAN Cenedlaethol**
**Danielle Cowell**
**Yr Adran Addysg**
**Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP**
**Ffôn: (029) 20573304**
**E-bost: scan@aocc.ac.uk**
**www.scan-online.org**

**Ydych chi wedi blino ar wasgu mwy a mwy I gwricwlwm gorlawn?**

## Gadewch i ni hwyluso pethau i chi

Mae ein pecyn yn cynnig: cyflwyniadau PowerPoint, cynlluniau gwersi, gemau a chyfle i ennill £300. Neu beth am ddod â'ch disgyblion i weithdy rhad ac am ddim yn un o'ch amgueddfeydd – gweler y daflen amgaeëdig am ragor o fanylion.

**Helpwch eich disgyblion i feithrin agwedd gyfrifol at ddefnyddio adnoddau ein byd – cyn iddi fynd yn rhy hwyr!**

SCAN Schools & Communities Agenda 21 Network · LTCS Landfill Tax Credit Scheme · Cardiff Caerdydd · Legal & General · Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government

**AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU**
**NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES**

# Cystadleuaeth Llawn Sbwriel!

## Ailgylchwch yn eich ysgol  Trefnwch weithdy am ddim

### Cymrwch ran ac ennill £300, £200 neu £100 i wella tiroedd eich ysgol!

### Gweithdy 'Peidiwch â Difa'r Ddaear'

Helpwch ni i amddiffyn yr unig blaned lle gallwn ni anadlu!

Dewch â'ch disgyblion i:

- ddarganfod sawl byd fyddai eu hangen arnom pe bawn ni'n parhau i fyw fel rydym ni heddiw.
- cymryd rhan mewn gweithgaredd didoli sbwriel ymarferol.
- lleihau faint o sbwriel y maent yn ei gynhyrchu.

**Peidiwch â Difa'r Ddaear!**

### Ar gael bron bob dydd!

### I drefnu, ffoniwch:

**029 2057 3240/3278** ar gyfer yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, Caerdydd
neu **029 2057 3403/3418** ar gyfer Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.
Hyd: **1hr**
Ar gael ar gyfer **CA uwch 1& 2**

### Cystadleuaeth Llawn Sbwriel!

Mae'n syml! Rydym ni'n gofyn i ysgolion gyfrif eu bagiau bin a lleihau'r nifer y maent yn eu taflu i ffwrdd bob wythnos – drwy ail-ddefnyddio ac ailgylchu mwy! Cymrodd dros 3,000 o ddisgyblion ysgol ran llynedd! Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol Daearyddiaeth, y fframwaith ABCh a chanllawiau diweddar Estyn yn annog ysgolion i hyrwyddo ffyrdd cynaliadwy o fyw.

2il Wobr £200
Ysgol Gynradd Nottage - Porthcawl.

Gwobr 1af £300
Ysgol Gynradd y Rhws - Bro Morgannwg.

3ydd Wobr £100
Ysgol Gynradd Golden Grove - Penfro.

Argraffwyd ar bapur wedi ei ailgylchu

www.scan.aocc.ac.uk

Legal & General  CARDIFF CAERDYDD  LTCS  SCAN Rhwydwaith Agenda 21 i Ysgolion a Chymunedau

AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

# Peidiwch â Difa'r Ddaear!

## CYNLLUNIAU GWERSI

**Pwyntiau i'w hystyried wrth ddefnyddio'r adnodd hwn.**

**Gallech gwblhau'r gwersi yn ystod diwrnod penodol a fydd wedi ei neilltuo i fod yn 'Ddiwrnod Addysg Amgylcheddol'.**

**Gallai Gwers 1 gael ei rhannu yn ddwy wers, gan roi mwy o amser i drafod y pynciau.**

**Mae'n bosib defnyddio'r cyflwyniad 'PowerPoint' fel rhan o wasanaeth neu gynulliad yr ysgol, gan gwblhau'r gweithgaredd recordio yn yr ystafell ddosbarth.**

**Gellir cyflwyno terminoleg mwy cymhleth ar gyfer CA2 (e.e. inswleiddio, ffynonellau adnewyddol, datblygiad cynaliadwy, dinasyddiaeth).**

**Mae'r gwersi hyn wedi cael eu gwahaniaethau i GA2 isaf ac uchaf, gyda'r fersiwn CA2 uchaf yn hybu dealltwriaeth well o bynciau byd-eang, ac o'r modd y mae 'ôl troed byd-eang' yn cael ei fesur.**

Paratowyd a chynhyrchwyd y Project SCAN hwn gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Awdur: Danielle Cowell.
Golygwyd a gwahaniaethwyd gan athrawon ar leoliad wedi ei ariannu gan Parneriaeth Addysg a Busnes:
Pam Harris – Llwynypia Primary, Susan Kerr – Nottage Primary, Susan Jordan – St Brides CIW Primary,
Nadine Redgers – Magor VAP School, Alexandra Riordan – St. Joseph's Primary and Tony Walker – Crumlin High Level Primary.
Mae'r cwis 'Powerpoint' wedi ei addasu o ddeunydd a greuwyd gan Bestfootfoward.com



SCAN Schools & Communities Agenda 21 Network
LTCS Landfill Tax Credit Scheme
CARDIFF CAERDYDD
Legal & General
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government
AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

# Peidiwch â Difa'r Ddaear!

## Cynllun Gwers 1 Bl. 5&6 – 'Peidiwch â Difa'r Ddaear' (tua 1awr.)

| | |
|---|---|
| **Paratoi:** | Llungopïwch **Taflen Waith 1 Bl.5&6** (2 dudalen) ar gyfer pob disgybl a pharatowch y cyflwyniad **PowerPoint Bl.5 & 6** yn barod i'w ddangos. Gofynnwch i'r disgyblion blygu **Taflen Waith 1 Bl.5&6,**er mwyn creu eu cardiau pleidleisio, cyn i'r wers ddechrau. Bydd angen pensiliau a chyfrifanellau ar y disgyblion. Os nad oes gennych y modd i ddefnyddio PowerPoint, printiwch y sleidiau ar dudalennau O.H.P. |

| | |
|---|---|
| **Amcanion Dysgu:** | I ddatblygu agwedd gyfrifol tuag y defnydd o'r adnoddau hynny ar y ddaear na ellir mo'u hadnewyddu. I fod yn ymwybodol o'r gallu i arbed, ail-ddefnyddio ac ailgylchu gwastraff o fewn eu milltir sgwâr. |

**Cysylltiadau ar draws y Cwricwlwm:** ABCh, Dinasyddaeth, Y Cwricwlwm Cymreig, Mathemateg.

| | |
|---|---|
| **Adnoddau:** | Cyflwyniad PowerPoint 'Peidiwch â Difa'r Ddaear', Taflenni Gwaith 1 Bl. 5&6, Gwaith Cartref a Nodiadau Athrawon. |

## Prif Fewnbwn – Nodiadau'r Siaradwr

Mae'n hawdd iawn i ddefnyddio'r PowerPoint hwn! Ar y cyfan, yr unig beth sydd angen gwneud yw darllen y testun a chlicio ar y llygoden. Dyma rai nodiadau i'ch helpu.

**Sleidiau 1 – 4**




Dangoswch yr animeiddiad 'Peidiwch â Difa'r Ddaear ' i'r disgyblion a gofynnwch iddynt os oes ganddyn nhw rhyw syniad ynglŷn â'r hyn y bydd y cyflwyniad yn ei gynnwys. Mae'r animeiddiad yn cyflwyno neges ynglŷn â gofalu am ein planed a gwneud yn siwr ein bod ni'n defnyddio adnoddau, fel dŵr a thrydan, yn synhwyrol.

# Peidiwch â Difa'r Ddaear!

## Sleidiau 5-8




Cliciwch drwy'r animeiddiad cwningen a darllenwch y testun. Testun : Bob dydd mae'r gwningen yma yn bwyta 1 medr sgwâr o laswellt er mwyn cadw'n fyw. Mae'n byw mewn gardd sy'n 3 medr sgwâr ac mae'n cymryd 11 diwrnod i 1 medr sgwâr o laswellt dyfu nôl. Pa broblemau bydd y gwningen hon yn debygol o'u hwynebu yn y dyfodol? Os dymunwch, gallwch ddefnyddio pren mesur medr er mwyn helpu eich disgyblion i ddychmygu maint medr sgwâr yn llygad eu meddwl. (Unwaith i'r disgyblion ateb y cwestiwn, cliciwch er mwyn dangos yr ateb).

## Sleidiau 9-10




Testun: Erbyn diwrnod naw ni fydd unrhyw laswellt ar ôl ar gyfer y gwningen. Sawl medr sgwâr o dir sydd angen ar y gwningen er mwyn iddi allu cadw'n fyw? (unwaith i'r disgyblion ateb y cwestiwn, cliciwch er mwyn dangos yr ateb. Byddai angen darn o dir sy'n mesur 11 medr sgwâr er mwyn i'r gwningen oroesi, a 12 i fyw yn gyfforddus).

## Sleidiau 11&12

Darllenwch y testun, yna holwch y disgyblion am eu barn nhw. Bydd yr atebion yn dod i'r amlwg yn ddiweddarach yn ystod y cyflwyniad 'Powerpoint'. Testun: felly gallwn ddweud bod angen 12 medr sgwâr o dir er mwyn cynnal un gwningen. Felly er bod ôl ei throed, go iawn, ond yn mesur hyn o faint, mae ôl byd-eang ei throed yn 12 medr sgwâr.
Beth am bobl? Ydych chi'n meddwl bod angen mwy neu lai o dir arnyn nhw na chwningen?

## Sleidiau 13&14

Darllenwch y testun a chliciwch. Testun: Os rhennir arwynebedd defnyddiol y byd gan y nifer o bobl sy'n byw ar y ddaear..... wedyn bydd darn o dir sy'r un maint â dau gae rygbi rhyngwladol ar gael i bob un ohonom i ddarparu ein hanghenion i gyd am un flwyddyn. Cwestiynau: C: Beth yw ystyr 'tir defnyddiol? A: Tir sy'n gallu tyfu cnydau. C pa fath o dir fyddai'n anaddas ar gyfer tyfu cnydau A: anialwch, pegynau iâ.

# Peidiwch â Difa'r Ddaear!

## Sleidiau 15 & 16

Gofynnwch i ddisgyblion weithio mewn grwpiau/parau ac i nodi pob math o ddefnydd y mae dyn yn ei wneud o dir (2-5 mun). Trafodwch, yna cliciwch i gael yr atebion.

## Sleidiau 16 & 17




Darllenwch y testun yna cliciwch. Testun : nid yw pob person ar y ddaear yn defnyddio'r 'gyfran deg' o ofod sydd ar gael iddyn nhw. Ydych chi'n meddwl bod rhai pobl yn defnyddio gwerth mwy na dau gae rygbi? Os felly, lle byddech yn disgwyl i'r bobl hyn fyw? Gofynnwch i'r disgyblion bleidleisio gan ddefnyddio'r cardiau pleidleisio a baratowyd ganddynt ar ddechrau'r wers, yna cliciwch i ddangos pob ateb. Testun: Edrychwch ar y rhestr hon a phenderfynwch a yw'r person cyffredin sy'n byw yn y wlad honno yn defnyddio'i gyfran deg o dir, neu fwy neu lai na hyn.

## Sleidiau 18 & 19



Darllenwch a chliciwch. Testun: Adroddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiweddar bod y person cyffredin yng Nghymru yn defnyddio gwerth 5 cae rygbi bob blwyddyn! Mae hyn ddwywaith yn fwy na'n cyfran deg o dir! Felly er bod ôl eich troed yn hyn o faint, go iawn, mae eich ôl troed byd-eang yn gorchuddio 5 cae rygbi!

# Peidiwch â Difa'r Ddaear!

## Sleidiau 20 - 23







Cliciwch a darllenwch. Testun: fel y gwningen rydym yn 'cnoi'n ddiddiwedd' ar adnoddau'r ddaear. Yn amlwg, dydyn ni ddim yn bwyta glaswellt ond rydym yn defnyddio gormod o adnoddau'r ddaear. Adnoddau fel : trydan, gwres, dwr, papur a phetrol. Yn wir, ry'n ni'n defnyddio mwy na dwywaith ein cyfran deg. Pa fath o broblemau gallai ein hwynebu yn y dyfodol? Yn union fel yr oedd y gwningen yn bwyta gormod o laswellt, rydyn ninnau yn defnyddio adnoddau'r ddaear yn rhy gyflym. Rydyn ni'n defnyddio dwywaith yr adnoddau sydd ar gael ar y ddaear ac fe fyddan nhw'n darfod cyn bo hir!

## Sleidiau 24-25




Dywedwch wrthyn nhw bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dweud yn ddiweddar 'Pe byddai pawb yn byw fel yr ydyn ni'n gwneud yma yng Nghymru, byddai angen dau fyd a hanner arnom!' Gofynnwch i'r disgyblion sawl byd sydd gennym ac eglurwch mai dim ond un byd sydd i gael a bod rhaid i ni ddysgu defnyddio'i adnoddau yn gall.

## Sleidiau 26-28




Cliciwch a darllenwch. Testun: Rhaid i ni ddysgu defnyddio'r adnoddau hyn yn fwy call ac i beidio â'u gwastraffu....cyn iddyn nhw ddarfod yn llwyr! Codwch eich llaw os oes rhywun erioed wedi dweud y drefn wrthych chi erioed am adael y golau ymlaen mewn ystafell. Rydyn ni i gyd yn gwastraffu dwr neu ynni o bryd i'w gilydd.... Mae'n arfer gwael ac mae'n rhaid i ni roi stop arno!

# Peidiwch â Difa'r Ddaear!

**Sleidiau 29 & 30**

**Cwis ôl-troed byd-eang!**

**Gwnewch yn siwr bod gan bob disgybl gopi o Daflen Waith 1.** Gofynnwch i'r disgyblion feddwl sawl byd byddai angen arnom pe byddai pawb yn byw yn union fel nhw? Mae angen dau fyd a hanner ar y person cyffredin ond beth fyddai angen ar bob disgybl yn y dosbarth – mwy na hyn neu lai na hyn? Eglurwch y byddwn yn cynnal cwis byr, er mwyn darganfod yn union sawl byd byddai angen arnom pe bai pawb yn byw yr un peth â phob plentyn yn y dosbarth. Gofynnwch i bob disgybl ateb pob cwestiwn mor onest â phosib. Eglurwch y byddwn yn edrych ar y dewisiadau yr ydym yn gwneud yn ein bywydau pob dydd ac yn darganfod os gallwn newid ein harferion a dysgu defnyddio adnoddau'r byd yn gall.

**Sleidiau 31 - 38**

**Cwestiynau i'w holi:**

**Oes rhywun wedi dweud y drefn wrthyt ti erioed am adael drws ar agor a gollwng y gwres o'r ystafell? Do = 45 pwynt. Wyt ti weithiau yn gwisgo crys-T o gwmpas y tŷ yn ystod y gaeaf oherwydd bod yr ystafelloedd yn rhy boeth ? Ydw = 45 pwynt. Mae gweddill y disgyblion sydd wedi ateb yn negyddol i'r cwestiynau hyn yn sgorio 10.**

Gofynnwch iddyn nhw pam fod gwastraffu gwres yn beth drwg i'r amgylchedd? Mae'n gwneud synnwyr i arbed gwres, nid yn unig er mwyn arbed arian ond hefyd oherwydd bod arbed gwres yn golygu achosi llai o lygredd. Felly mae'n bwysig bod pawb yn ceisio cadw'r gwres y tu mewn i'w tai ar ôl ei greu yn y lle cyntaf.




**Wyt ti'n dod i'r ysgol mewn car? Ydw = 75 pwynt. Rhaid i'r gweddill gerdded, beicio neu ddal bws = 10 pwynt.**

Pam fod dal bws, yn hytrach na defnyddio car i gyrraedd yr ysgol, yn well i'r amgylchedd? Pe byddai 40 o bobl yn dal bws, dim ond un injan byddai'n creu llygredd, ond pe byddai 40 o bobl yn defnyddio 40 car byddai 40 injan yn creu llygredd.

# Peidiwch â Difa'r Ddaear!

**Wyt ti'n gadael y tap dwr ar agor pan fyddi di'n brwsio dy ddannedd? Ydw = 5 pwynt. Tra dy fod ti'n wrthi'n brwsio fe fyddi di wedi gwastraffu 10 litr o ddŵr! Nac ydw = 1 pwynt.**

Efallai dy fod yn meddwl bod gennym ddigon o ddŵr yng Nghymru/Prydain, sy'n ddigon gwir – felly pam ddylem arbed dwr? Bob tro ry'n ni'n gadael tap dwr ar agor, mae'r dŵr glân yn cymysgu gyda dŵr budr o'r tŷ bach, sydd wedyn yn gorfod cael ei lanhau er mwyn ei ail-ddefnyddio. Mae'r broses o droi dwr tŷ bach yn ôl yn ddŵr yfed glân yn broses ddrud – mae'n costio arian ac yn defnyddio llawer o ynni!

**Pwy aeth ar wyliau mewn awyren llynedd? Os do = 65 pwynt. Os na = 10 pwynt.**

Pam fod mynd ar wyliau mewn awyren yn ddrwg i'r amgylchedd? Mae codi awyren drom i fyny i'r awyr yn defnyddio llwythi o danwydd ac ynni.

**Wyt ti'n rhannu dy lyfrau, comics neu gylchgronau gyda dy ffrindiau ar ôl i ti orffen eu darllen nhw, neu wyt ti'n benthyg llyfrau o'r llyfrgell? Ydw = 5 pwynt. Nac ydw = 10 pwynt.**

Pam fod benthyg llyfr o'r llyfrgell yn well i'r amgylchedd na chael 20 o bobl yn prynu 20 copi o lyfr? Gallai 20 person ddarllen 1 llyfr, a fyddai'n golygu bod llai o goed yn cael eu torri er mwyn cynhyrchu papur.

**Wyt ti'n rhoi dy holl sbwriel i mewn i sachau duon? Ydw = 100 pwynt. Wyt ti'n ail-ddefnyddio ac yn ailgylchu popeth sy'n bosib? Ydw = 30 pwynt.**




**Oes rhywun wedi dweud y drefn wrthyt ti erioed am adael golau'r ystafell ymolchi ymlaen? Do. Wyt ti'n gadael y cyfrifiadur ymlaen tra dy fod ti'n taro lawr llawr i wylio'r teledu? Ydw. Wyt ti'n gadael y teledu yn hepian yn lle ei ddiffodd yn llwyr? Os mai 'ydw' yw'r ateb i un neu ragor o'r cwestiynau hyn = 50 pwynt. Wyt ti'n arbed cymaint o drydan â phosib ac yn defnyddio bylbau ynni isel? Ydw = 2**

# Peidiwch â Difa'r Ddaear!




**Pam ei bod hi'n well i brynu tatws sydd wedi cael eu tyfu yn lleol yn hytrach na thatws sydd wedi teithio yr holl ffordd o wlad fel yr Aifft? Mae cludo bwyd dros bellter mawr yn creu llawer o lygredd.**

Ydy dy rieni yn siopa yn yr archfarchnad leol? Ydyn = 100 pwynt. Neu a ydyn nhw'n prynu bwyd o ffermydd lleol? Ydyn = 32 pwynt.

**Cyfanswm**
Cyfra'r sgoriau i gyd gyda'i gilydd. Wedi i ti gael un swm terfynol mi wnaf ddweud wrthyt ti sawl byd byddai angen arnom pe byddai pawb yn byw fel ti

Cael 100 pwynt neu lai fyddai orau oherwydd byddai hyn yn golygu mai dim ond un byd byddai angen arnom.

**Sgorio**
200 = 2 fyd
300 = 3 byd
400 = 4 byd
50'au = ½ byd.
Felly byddai sgôr o 250 yn cyfateb i 2.5 byd.

**Gweithgaredd Dilynol:**

Plant i ddarganfod sut i wella'r dewisiadau y maen nhw'n gwneud yn eu bywydau bob dydd ac i ddarganfod os y gallent newid eu harferion a dysgu sut i ddefnyddio adnoddau'r byd yn fwy call.

**Awgrym ar gyfer gwaith cartref:**

Plant i ddefnyddio taflen gasglu data i ddarganfod pa mor garedig i'r amgylchedd y mae eu cartrefi nhw eu hunain. Llungopïwch y daflen **Gwaith Cartref** i bob disgybl. Mewnbynnwch y data a gesglir ar ffurf databasau neu graffiau a thrafodwch y canlyniadau.

# Peidiwch â Difa'r Ddaear!

## Cynllun Gwers 2 ar gyfer Bl.3-6 'Y Gêm Llawn Sbwriel'

**(Hyd tua ½awr)**

**Paratoi:** Llungopïwch **Taflen Waith 2** ar gyfer pob disgybl/grŵp a chasglwch yr adnoddau a nodir isod. Mae Taflen Waith 2 wedi ei gwahaniaethu ar sail addasrwydd y cynnwys i GA2 isaf ac uchaf. Cyn cychwyn yr ymarferiad, eglurwch y tri 'A' i'r disgyblion : arbed (neu leihau), ail-ddefnyddio ac ailgylchu. Eglurwch ei bod hi'n well ail-ddefnyddio rhywbeth (fel amlen neu botel blastig) na'i ailgylchu, a'i bod yn well i ailgylchu rhywbeth (fel papur gydag ysgrifen ar y ddwy ochr) na'i daflu i'r bin. Eglurwch fod llawer o'r eitemau ry'n ni'n rhoi mewn biniau yn bethau gwerthfawr a'i bod yn wastraffus i'w taflu i ffwrdd. Cyn eu bod nhw'n rhoi unrhyw beth yn y bin fe ddylent ofyn iddyn nhw eu hunain y tri chwestiwn canlynol 1) a fyddai'n bosib ei ail-ddefnyddio? Os na, a fyddai hi'n bosib i'w ailgylchu? Os na, dylid cywasgu'r gwastraff fel ei fod mor fach â phosib a'i roi yn y bin. Paratowch fag siopa â'i lond o sbwriel, a gofynnwch i'r plant ddychmygu eu bod nhw'n cynhyrchu'r cyfanswm yma o sbwriel bob dydd. Bydd rhai yn dweud eu bod yn cynhyrchu mwy na hyn. Gofynnwch iddyn nhw faint o fagiau llawn sbwriel y byddai ganddynt ar ddiwedd y flwyddyn? 365 o fagiau siopa i bob plentyn – a fyddai hyn yn ddigon i lenwi'r ystafell ddosbarth? I ble mae'r holl sbwriel yma'n mynd? Defnyddiwch y **Poster Ailgylchu** i helpu egluro. Mae'n mynd i domennydd sbwriel sydd, yn eu hanfod, yn dyllau anferth yn y ddaear sy'n cael eu llenwi â sbwriel, Beth sy'n digwydd pan fydd y tyllau yma wedi eu llenwi? Fe fydd twll arall yn cael ei agor, yna un arall. A hoffech chi fyw drws nesaf i domen sbwriel? Na, felly mae'n rhaid i ni ddysgu ail-ddefnyddio ac ailgylchu popeth sy'n bosib i'w drin fel hyn. Ar ddiwedd yr ymarferiad, dim ond ambell eitem ddylai fod yn mynd i'r bin, fel pacedi creision, papur siocledi a blychau diodydd. Bydd yr ymarferiad yn dangos sut mae modd **arbed yn rhyfeddol** y cyfanswm o sbwriel sy'n cael ei daflu i ffwrdd mewn biniau, os y gwnawn ni ymdrechu o ddifrif.

**Amcanion Dysgu:** I adnabod a diffinio sbwriel. I ddatblygu ymwybyddiaeth ehangach o'r hyn a ystyrir yn sbwriel. I ddosbarthu sbwriel yn grwpiau o gynnyrch sy'n bosib eu hailgylchu, eu hail-ddefnyddio - neu sy'n wastraff gwirioneddol.

**Cysylltiadau ar draws y Cwricwlwm:** ABCh, Dinasyddiaeth, Y Cwricwlwm Cymreig, Mathemateg.

**Adnoddau:** Cofiwch – ni fydd angen y cyfan o'r eitemau hyn arnoch – casglwch beth bynnag sydd ar gael a digon i wneud 20 eitem (sy'n rhif hawdd i blant ei ddefnyddio ar gyfer gweithio ffracsiynau): 3 hambwrdd neu flychau wedi eu labelu – Ail-ddefnyddio (ADd), ailgylchu (AG) a Gwastraff (G).

Papurau Siocled **G & AG**
Pacedi creision **G**
Pilion llysiau **AG – fel compost**
Tudalennau o bapur gydag ysgrifen ar y ddwy ochr **AG**
Tudalennau papur gydag ysgrifen ar un ochr **ADd**
Blychau/pecynnau cardbord **G & AG**
Deunydd pacio plastig **G & ADd**
Comics, cylchgronau & Phapurau newyddion **ADd & AG**
Caniau bwyd **AG**
Poteli plastig **AG**
Amlenni **ADd**
Bagiau te **AG – fel compost**
Blychau diod **G**
Dillad/tecstiliau **ADd & AG**
Poteli plastig **AG**
Caniau Diod **AG**
Bagiau cario siopa **ADd**
Blychau wyau a rholiau cardbord **AG** – fel compost


AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

# Peidiwch â Difa'r Ddaear!

**Prif Fewnbwn:** Gwaith didoli . Y plant i gymryd eu tro i ddidoli'r sbwriel yn grwpiau gwahanol o bethau y gellir eu hail-ddefnyddio (bagiau cario siopa, amlenni, dillad ac ati), eu hailgylchu (papur, cardbord, plastig, caniau, papur ffoil ac ati) a gwastraff na ellir mo'i ail-ddefnyddio neu ei ailgylchu (pacedi creision ayb) – yn ôl y math o ddeunydd sydd ynddynt.

Trafodwch gyda'ch disgyblion pa bethau y gellid eu hail-ddefnyddio a'u hailgylchu o fewn eich ysgol. Efallai na fyddwch yn gallu ail-ddefnyddio neu ailgylchu popeth yn syth – ond gwnewch eich gorau glas a gosodwch dargedau i wneud mwy y flwyddyn ganlynol.

**Gweithgaredd dilynol:** Gofynnwch i'r plant un ai i dorri llun o eitem y gellir ei ailgylchu allan o gylchgrawn, neu i ddod ag eitem i mewn o'u cartrefi. Gall yr eitemau hyn gael eu defnyddio wedyn i greu gludwaith neu arddangosfa 'ailgylchadwy'.

**Awgrym ar gyfer Gwaith Cartref:** Cynllunio poster i'w osod yn y tŷ er mwyn annog pawb yn y cartref i ail-ddefnyddio neu ailgylchu eitemau.

## Cynllun Gwers 3 - 'Y Gystadleuaeth Llawn Sbwriel'

Cymerwch ran yn y **Gystadleuaeth Llawn Sbwriel** er mwyn lleihau'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu yn yr ysgol. Gallech ennill £300, £200 neu £100 i wella tir eich ysgol.

**Paratoi:** Darllenwch drwy '**Daflen Waith 3 – pecyn 'Y Gystadleuaeth Llawn Sbwriel'** (amgaeëdig).

**Amcanion Dysgu:** I ddatblygu a rhoi prawf ar ffyrdd i helpu lleihau y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu yn yr ysgol. I ddatblygu agweddau a gweithredoedd/arferion cyfrifol mewn perthynas â'r defnydd o'r adnoddau hynny ar y ddaear na ellir mo'u hadnewyddu

**Cysylltiadau ar draws y Cwricwlwm:** ABCh, Dinasyddiaeth, Cynllunio a Thechnoleg.

**Adnoddau:** Pecyn Cystadleuaeth Llawn Sbwriel. Mae'r pecyn yn cynnwys cyngor ynglŷn â chofnodi'r gwastraff a gynhyrchir, gwybodaeth am yr hyn y gellir ac na ellir ei ailgylchu ac awgrymiadau ynglŷn â ffyrdd defnyddiol i ailgylchu. Mae hefyd yn cynnwys cynghorion hwylus ynglŷn â sut i ysgrifennu eich Cynllun Lleihau Gwastraff eich hunan.



AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

**Taflen waith 1 – Bl.5&6**

**CARDEN BLEIDLEISIO** – Sut i'w chreu.
Plygwch ar hyd y llinellau smotiog a ffurfiwch siâp triongl, gan wneud yn siwr bod y geiriau ar y tu allan. Fel hyn -→

Tro'r llabed neu'r fflap at i mewn.

# MWY

# LLAI

# CYFRAN DEG

Tro'r llabed hwn at i mewn.

**Taflen Waith 1 – Bl.5&6**

Sawl byd byddai eu hangen arnom pe byddai pawb yn byw fel ti?

| Categori | Dy Sgôr |
|---|---|
| Gwresogi | |
| Cludiant | |
| Dwr | |
| Gwyliau | |
| Papur | |
| Gwastraff | |
| Trydan | |
| Bwyd | |
| Cyfanswm | |

Pe byddai pawb yn y Byd yn byw fel fi, byddai angen _____ byd arnom.

Lliwia'r nifer o fydoedd sydd angen arnat ti
Cofia 100 = 1 Byd

# Peidiwch â Difa'r Ddaear!

**Gwaith cartref**

## Taflen i Gasglu Data

Enw…… Dyddiad……

| | Tic | Croes |
|---|---|---|
| Oes gennych chi ddeunydd inswleiddio i fyny yn y to? | | |
| Oes gennych chi ddeunydd inswleiddio yng ngheudod y waliau gartref? | | |
| Wyt ti'n cerdded ar siwrneiau byr yn hytrach na defnyddio car? | | |
| Wyt ti'n cymryd cawodydd yn hytrach na chael bath? | | |
| Wyt ti'n benthyg llyfrau o'r llyfrgell? | | |
| Wyt ti'n ailgylchu gwastraff? | | |
| Ydych chi'n defnyddio bylbau ynni isel yn y ty? | | |
| Ydych chi'n prynu eich trydan o ffynonellau adnewyddol? | | |
| Ydych chi'n prynu unrhyw fwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol? | | |
| Ydych chi'n arbed dwr neu ynni mewn unrhyw ffordd arall o gwmpas y cartref? | | |

SCAN Schools & Communities Agenda 21 Network
LTCS Landfill Tax Credit Scheme
CARDIFF CAERDYDD
Legal & General
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government
AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

# Y Gêm Llawn Sbwriel

## Ailgylchu ☺

## Ail-ddefnyddio ☺☺

## Sbwriel ☹

**Gan ddefnyddio geiriau neu ddarluniau, gosodwch yr eitemau sbwriel yr ydych wedi eu didoli yn y cylch cywir.**

**Pa ffracsiwn o'ch sbwriel sy'n bosib i'w ail-ddefnyddio? _____**

**Pa ffracsiwn o'ch sbwriel sy'n bosib i'w ailgylchu? _____**

**Pa ffracsiwn sy'n gorfod cael ei gywasgu a'i roi yn y bin? _____**

**A** fedrwch chi droi eich ffracsiynau yn ganran?
Rhowch eich ateb wrth ymyl y ffracsiwn

**Taflen Waith 2 – Bl.5&6**

# Pecyn y Gystadleuaeth Llawn Sbwriel

Cymrwch ran am gyfle i ennill **£300**, **£200** neu **£100** i wella tir eich ysgol!

Mae'n syml! Rydym ni'n gofyn i ysgolion gyfrif eu bagiau sbwriel a lleihau'r nifer sy'n cael eu taflu i ffwrdd bob wythnos – drwy ail-ddefnyddio ac ailgylchu mwy! Cymrodd dros 3,000 o ddisgyblion ran y llynedd! Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol Daearyddiaeth, y fframwaith ABCh a chanllawiau diweddar gan Estyn yn annog ysgolion i hyrwyddo ffyrdd cynaliadwy o fyw. Felly cymrwch ran ac ewch ati i ailgylchu yn eich ysgol!

**Y Rheolau:**

Caiff gwobrau eu cyflwyno i ysgolion sydd naill ai'n gallu:

Cynhyrchu'r nifer leiaf o fagiau sbwriel/disgybl/wythnos.
Neu
Sicrhau'r *gostyngiad* mwyaf yn nifer y bagiau sbwriel/disgybl/wythnos.

**Sut i gymryd rhan:**

1) Llenwch y ffurflen Gofrestru sydd dros y ddalen i roi gwybod i ni eich bod chi'n cymryd rhan.

2) Cyfrwch faint o fagiau sbwriel mae eich ysgol yn eu taflu i ffwrdd bob wythnos. Cadwch eich cofnod ar y Siart Bagiau Sbwriel.

3) Darganfyddwch beth gallech chi ddechrau ei ailgylchu yfory a beth gallwch chi anelu at ailgylchu o fewn yr wythnosau nesaf. Edrychwch ar yr esiamplau wedyn lluniwch eich Cynllun Ailgylchu Sbwriel ar y ffurflen bwrpasol.

4) Ar ôl dechrau ailgylchu, cyfrwch eich bagiau sbwriel bob wythnos am bedair wythnos neu ragor. Cadwch gofnod ar y Siart Bagiau Sbwriel.

**5)** Llenwch y ffurflen a'i hanfon i'r cyfeiriad trosodd erbyn **dydd Mercher, 7 Gorffennaf 2004.**

**Pryd ddylech chi gymryd rhan?**

Gallwch chi gymryd rhan unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn ysgol cyhyd â'ch bod chi'n dechrau cyn wythnos gyntaf hanner tymor yr haf (Wythnos 24: sy'n dechrau ar 7 Mehefin 2004). Byddwn ni'n ymweld â'r ysgolion buddugol rhwng 12 a 14 Gorffennaf i gyflwyno'r gwobrau.



SCAN Schools & Communities Agenda 21 Network
LTCS Landfill Tax Credit Scheme
CARDIFF CAERDYDD
Legal & General
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government
AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

# Pecyn y Gystadleuaeth Llawn Sbwriel

## 1 Ffurflen Gofrestru

Manylion Cyswllt:

Ysgol:_____

Athro/Athrawes:_____

Cyfeiriad:_____
_____
_____
_____

Ffôn: _____

E-bost: _____

Ffacs:_____

Dychweler i:

Cystadleuaeth Llawn Sbwriel
Adran Addysg
Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NP

Ffôn: 029 2057 3240/278 Ffacs: 029 2057 3369

E-bost: scan@aocc.ac.uk



SCAN Schools & Communities Agenda 21 Network
LTCS Landfill Tax Credit Scheme
CARDIFF CAERDYDD
Legal & General
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government
AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

# Pecyn y Gystadleuaeth Llawn Sbwriel

## 2 Siart Bagiau Sbwriel

Defnyddiwch y siart i gadw cofnod o sawl bag sbwriel mae eich ysgol yn eu taflu i ffwrdd bob wythnos. Trefnwch i'ch disgyblion siarad â gofalwyr/glanhawyr yr ysgol er mwyn darganfod sut a phryd mae biniau'r ysgol yn cael eu casglu.

| Beth sy'n cael ei ailgylchu? | Dyddiad | Nifer y bagiau sbwriel a anfonwyd i'r domen sbwriel |
|---|---|---|
| Wythnos 1 | | |
| *****DECHRAU AILGYLCHU***** | | |
| Wythnos 2 | | |
| Wythnos 3 | | |
| Wythnos 4 | | |
| Wythnos 5 | | |
| DIWEDD Y GYSTADLEUAETH – POSTIWCH EICH CAIS | | |



SCAN Schools & Communities Agenda 21 Network
LTCS Landfill Tax Credit Scheme
CARDIFF CAERDYDD
Legal & General
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government
AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

# Pecyn y Gystadleuaeth Llawn Sbwriel

## 3 Cynllun Lleihau Sbwriel Enghreifftiol

Defnyddiwch y cynllun enghreifftiol hwn i'ch helpu chi i ddechrau ailgylchu yn eich ysgol. Trafodwch ba ddeunyddiau sy'n gallu cael eu hail-ddefnyddio neu eu hailgylchu (gweler y rhestr). Nodwch ba ddeunyddiau sy'n gallu cael eu hail-ddefnyddio a'u hailgylchu'n rhwydd yn yr ysgol. Trafodwch y costau, amserlen a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth ailgylchu ac ailddefnyddio rhai deunyddiau.

| Math | Camau | Cost | Pwy | Wyth-nos |
|---|---|---|---|---|
| Crwyn llysiau/ ffrwythau | Ymchwiliwch i weld sut gallai bin compostio weithio yn eich ysgol chi a beth fyddai'r gost. Cysylltwch â chyrff ailgylchu lleol. | d/b | Bl. 4 | 1 |
| | Gwnewch arwyddion i esbonio na ddylai sbwriel arferol fynd yn y bin compostio. Dyluniwch arwyddion clir a thrawiadol. Archebwch finiau compostio. | £10 y bin | Bl. 4 | 2 |
| Papur gwyn | Mynnwch fod pob rhan o'r ysgol yn defnyddio papur gwyn ar y ddwy ysgol. Monitrwch faint o bapur gwyn sy'n cael ei ddefnyddio. | d/b | Bl. 3 | 2 |
| | Gosodwch finiau ailgylchu yn swyddfa'r ysgol ac yn yr ystafelloedd dosbarth. Gallai'r papur gael ei gasglu mewn blychau cardfwrdd wedi eu haddurno'n bert. Trefnwch systemau a rotas casglu. | dim | Bl. 3 | 3 |
| Blychau cardfwrdd | Sicrhewch fod yr holl gardfwrdd yn cael ei wasgu'n fflat cyn mynd i'r bin. | dim | Pawb/ swyddfa | 1 |
| | Aseswch beth sy'n cael ei ddosbarthu i'r ysgol mewn blychau cardfwrdd a sut gellir ailddefnyddio'r blychau. | dim | pawb | 2 |
| Pecynnau siocled | Prynwch siocled wedi ei lapio mewn papur yn hytrach na phlastig. | dim | pawb | 2 |
| | Gofynnwch i siop da-da'r ysgol stocio siocled masnach deg. | dim | siop | 3 |
| Bagiau creision | Cyfrwch sawl pecyn fyddwch chi'n eu bwyta mewn wythnos – a yw hyn yn iach? | dim | pawb | 1 |
| | Bwytewch nifer call o greision a chasglwch y tocynnau sydd ar y pacedi. | dim | pawb | 2 |
| Pecynnau plastig a chartonau sudd | Cyfrwch faint o becynnau sy'n dod i mewn i'r ysgol. | dim | Bl. 5 | 1 |
| | Sicrhewch fod y disgyblion eraill yn gwybod nad oes modd ailgylchu'r math yma o becynnu a goblygiadau hynny. Gofynnwch iddynt ystyried dod â byrbrydau a diodydd heb becynnu diangen i mewn gyda nhw. Gwnewch bosteri, siaradwch â'r rhieni ayb. | dim | pawb/ Bl.5 | 2 |



SCAN Schools & Communities Agenda 21 Network
LTCS Landfill Tax Credit Scheme
CARDIFF CAERDYDD
Legal & General
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government
AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

# Pecyn y Gystadleuaeth Llawn Sbwriel

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cylchgronau a chomics | Gofynnwch i'r disgyblion ddod â chylchgronau/comics i mewn i'r ysgol ar ôl gorffen gyda nhw. Gellid rhoi'r cylchgronau mewn blwch i'w darllen amser egwyl os yw'r tywydd yn wael neu i'w benthyg. | dim | Bl.6 | 1 |
| | Enwebwch ddisgyblion i fynd â'r cylchgronau i gael eu hailgylchu ar ddiwedd pob tymor. | dim | Bl.6 | 3 |
| Caniau diod | Ymchwiliwch i'r dewisiadau sydd ar gael o ran ailgylchu caniau alwminiwm yn lleol. Mae rhai ysgolion yn codi arian drwy ailgylchu alwminiwm. Chwiliwch i weld beth yw'r system fwyaf effeithiol ar gyfer eu casglu. | dim | Bl.6 | nawr |
| | Casglwch ganiau alwminiwm yn yr ysgol. | dim | Bl.6/ pawb | 3 |
| Caniau bwyd | Ymchwiliwch i weld a fyddai modd ailgylchu caniau bwyd cegin yr ysgol yn lleol. A fyddai'n ymarferol eu hailgylchu nhw? Siaradwch â staff y gegin. | dim | Bl.5 | 3 |
| | Prynwch finiau ailgylchu ayb. Rhowch system ailgylchu caniau bwyd ar waith. | £7/bin | Bl.5 | 4 |
| Bagiau plastig | Edrychwch ar fannau o gwmpas yr ysgol lle gellid cadw bagiau plastig – gwnewch yn siwr nad ydyn nhw o fewn cyrraedd y plant iau. Mae bagiau plastig bob amser yn ddefnyddiol a gallai'r staff eu defnyddio nhw eto. | dim | staff | 1 |
| | Gwnewch le i storio bagiau plastig yn yr ystafell athrawon. | dim | staff | 1 |
| Poteli plastig | Edrychwch ar y posibilrwydd o ailddefnyddio poteli yn hytrach na dod â chartonau diod i'r ysgol. Ailgylchwch unrhyw boteli sy'n hen iawn. | dim | Bl. 1 a 2 | 1 |
| | Ailddefnyddiwch boteli cyhyd ag y gallwch chi wedyn ailgylchwch nhw mewn man canolog yn yr ysgol. | dim | pawb | 3 |
| Amlenni | Siaradwch â staff y swyddfa am ailddefnyddio amlenni. Rhowch amlen arbennig i bob disgybl i fynd â negeseuon adref a gofynnwch iddyn nhw gadw'r amlen yn eu bag drwy'r amser. Gallai hyn wella cysylltiadau rhwng yr athrawon a'r rhieni. | dim | Bl. 1 a 2 | 1 |
| | Ailddefnyddiwch yr holl amlenni sy'n cael eu defnyddio o fewn yr ysgol. Prynwch amlenni sydd wedi'u hailgylchu. | dim | pawb | 2 |
| Bagiau te | Ymchwiliwch i weld sut a ble y gallech ailgylchu bagiau te. Gofynnwch i'r staff a fydden nhw'n fodlon ailgylchu bagiau te i wneud compost. Trafodwch sut gallai'r disgyblion fynd â'r bagiau te i'r bin compostio yn rheolaidd. | dim | staff | 1 |
| | Prynwch fin compostio ac ailgylchwch hen fagiau te. | dim | staff | 2 |



SCAN Schools & Communities Agenda 21 Network
LTCS Landfill Tax Credit Scheme
CARDIFF CAERDYDD
Legal & General
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government
AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

# Pecyn y Gystadleuaeth Llawn Sbwriel

## 4 Oes modd ei Ailddefnyddio neu ei Ailgylchu?

| | |
|---|---|
| **Pecynnau Siocled**<br>Nid yw'r rhain yn pwyso rhyw lawer – ond nid oes modd eu hailgylchu. | **Pecynnau Creision**<br>Nid oes modd ailgylchu'r rhain. Chwiliwch i weld a oes tocynnau arnynt cyn eu rhoi nhw yn y bin. |
| **Crwyn Llysiau**<br>Gellir ailgylchu'r rhain mewn biniau compostio i gyfoethogi'r pridd. | **Papur Gwyn (ag ysgrifen ar y ddwy ochr)**<br>Ailgylchwch e. Cadwch bapur gwyn ar wahân oddi wrth bapur lliw a chylchgronau. |
| **Papur Gwyn (ag ysgrifen ar un ochr)**<br>Ailddefnyddiwch y papur cyn ei ailgylchu. | **Blychau Cardfwrdd**<br>Gellir ailgylchu'r rhain –gwneir cardfwrdd o bapur lliw wedi ei ailgylchu bron bob tro. Ailddefnyddiwch nhw lle gallwch chi. |
| **Pecynnau Plastig**<br>Gellir ailgylchu rhai mathau o blastig. Chwiliwch am y logo. | **Cylchgronau, Papurau Newydd a Chomics**<br>Ailddefnyddiwch nhw drwy eu rhannu gyda'ch ffrindiau – wedyn ailgylchwch nhw. Cofiwch eu cadw nhw ar wahân o'r papur gwyn. |
| **Cartonau Sudd**<br>Ni ellir ailgylchu'r rhain – felly lleihewch nhw! Beth am lenwi potel gyda sudd ar gyfer eich bocs brechdanau. | **Caniau Diod**<br>Gellir ailgylchu pob math o ganiau diod. Mae ailgylchu caniau alwminiwm yn defnyddio llai na hanner yr ynni y mae'n ei gymryd i wneud caniau newydd o ddeunyddiau crai. |
| **Caniau Bwyd**<br>Gwneir y rhain o ddur a gellir eu hailgylchu. Mae magnetau yn glynu wrth ddur. | **Bagiau Plastig**<br>Ailddefnyddwich nhw bob tro yr ewch chi i siopa. Gwrthodwch fagiau plastig diangen. |
| **Poteli Plastig**<br>Ailddefnyddiwch nhw cymaint ag y gallwch chi – wedyn ailgylchwch nhw. Cofiwch dynnu'r topiau cyn ailgylchu. | **Amlenni**<br>Ailddefnyddiwch nhw cymaint ag y gallwch chi. |
| **Bagiau Te**<br>Gellir ailgylchu'r rhain i wneud compost. | **Pecynnu**<br>Ni ellir ailgylchu'r rhain. Os oes rhaid, ceisiwch ddod o hyd i ffyrdd creadigol o'u hailgylchu. |
| **Blychau wyau a rholiau cardfwrdd**<br>Gellir compostio'r rhain – ac mae compostio yn ddull o ailgylchu. | **Dillad**<br>Ailddefnyddiwch nhw – pasiwch nhw ymlaen i rywun arall neu rhowch nhw i siop elusennol. |
| **Poteli Gwydr**<br>Gellir ailddefnyddio neu ailgylchu'r rhain. | |



SCAN Schools & Communities Agenda 21 Network
LTCS Landfill Tax Credit Scheme
CARDIFF CAERDYDD
Legal & General
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government
AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

# Pecyn y Gystadleuaeth Llawn Sbwriel

## 5 Cynllun Lleihau Sbwriel

Pan fyddwch chi'n gwybod pa ddeunyddiau y gallwch chi eu hail-ddefnyddio a'u hailgylchu'n rhwydd – cytunwch ar Gynllun Lleihau Sbwriel sy'n bosibl ei gyflawni. Dylech chi ddewis y cynllun â'r effaith fwyaf bosibl ar leihau eich sbwriel. Gallai eich cynllun gynnwys cymaint neu gyn lleied o gamau ag y dewiswch chi a gall eich camau chi fod yn hollol wahanol i'r enghreifftiau a roddwyd.

| Math | Camau | Cost | Pwy | Pryd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |



SCAN Schools & Communities Agenda 21 Network
LTCS Landfill Tax Credit Scheme
CARDIFF CAERDYDD
Legal & General
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government
AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

# Pecyn y Gystadleuaeth Llawn Sbwriel

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |



SCAN Schools & Communities Agenda 21 Network
LTCS Landfill Tax Credit Scheme
CARDIFF CAERDYDD
Legal & General
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

# AILGYLCHWCH!

# Gwnewch eich rhan!

AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

LTCS Landfill Tax Credit Scheme

Sponsored by Welsh Assembly Government

CARDIFF CAERDYDD

Legal & General